Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru
Life Sciences Hub Wales

Crynodeb o’r Cyfarfod

Fe wnaeth Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru (“y Pwyllgor”) gwrdd ar 7 Mai 2025.

Daeth yr eitemau canlynol i law i roi sicrwydd arnynt:

- diweddariad ar gynnydd y Cynllun Archwilio Mewnol ar gyfer 2024-25. Cafwyd adroddiadau o'r archwiliadau mewnol i brosesau iechyd a diogelwch a systemau rheoli prosiectau Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru hefyd.
- Cofnod o'r Camau Gweithredu sydd wedi eu cymryd yn dilyn yr Archwiliadau Mewnol ac Allanol a chofnod o’r cynnydd sydd wedi ei wneud wrth gyflawni’r camau gweithredu y cytunwyd arnynt yn yr archwiliad.
- diweddariad ar y Gofrestr Risgiau Corfforaethol.
- diweddariad ar gyllid ac adnoddau - roedd hwn yn cynnwys cyfrifon rheoli ar gyfer Mawrth 2025.
- y cynllun archwilio blynyddol (a ffioedd) ar gyfer 2024/25.
- adroddiad ar drefniadau gwrth-dwyll.
- Cofrestr Diddordeb, Rhoddion, Lletygarwch a Noddi Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru.

Fe wnaeth y Pwyllgor nodi’r canlynol:

- Adroddiad Sicrwydd Llywodraethu Gwybodaeth ar gyfer chwarter olaf 2024/25.
- Adroddiad Diweddaru iechyd a diogelwch ar gyfer chwarter olaf 2024/25.
- Dogfen adolygu polisïau ddwywaith y flwyddyn.

Fe wnaeth y Pwyllgor gymeradwyo’r canlynol:

- y cynnig i gynnal amserlen flynyddol ar gyfer adolygiadau manwl o risgiau strategol yn 2025/26.
- yr ymateb i’r Ffurflen Archwilio Ymholiadau blynyddol yn 2024/25, i’w gyflwyno gerbron Archwilio Cymru.
- Cynllun Gweithredu Hunan Asesu'r Pwyllgor (camau gweithredu yn dilyn adolygiad o effeithiolrwydd y pwyllgor yn 2024/25.)

Fe wnaeth y Pwyllgor hefyd drafod awgrymiadau'r Ganolfan Seiberddiogelwch Genedlaethol yn dilyn yr ymosodiadau seiber diweddar ar y sector manwerthu yn y Deyrnas Unedig.